

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

43/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

18/07/2018

Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 - Crynodeb

Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 –
Crynodeb

Hefin Thomas, Jennifer Lane, Sioned Lewis, Eluned Glyn – Ymchwil
Arad



Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai
Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Hayley Collicott

Yr Is-adran Deuluoedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Hayey.Collicott@llyw.cymru

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Hawl EHV	<p>Mae'r hawl Ymweliadau lechyd Estynedig yn mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu un Ymwelydd lechyd cyfwerth ag amser llawn fesul 110 o blant dan 4 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cynrychioli llwyth achosion is na'r gwasanaeth cyffredinol a'i ddiben yw sicrhau bod cymorth dwys yn cael ei ddarparu i blant Dechrau'n Deg a'u teuluoedd. Prif swyddogaeth Ymwelydd lechyd Dechrau'n Deg yw cynorthwyo'r teulu yn y cartref, gan asesu'r plentyn a'r teulu (o ran risg uchel, canolig ac isel) a gwneud cyfeiriadau priodol.</p>
Hawl gofal plant	<p>Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o ansawdd, a gynigir i rieni pob plentyn 2-3 oed sy'n gymwys, am 2 awr a hanner y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos. Yn ogystal, dylai o leiaf 15 sesiwn o ddarpariaeth fod ar gael i'r teulu yn ystod y gwyliau ysgol.</p>
Hawl rhianta	<p>Rhaid i bob teulu sy'n cynnwys plentyn Dechrau'n Deg gael cynnig cymorth rhianta ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae modd i hwn fod mewn grwpiau neu mewn sefyllfa un-i-un yn y cartref, gyda chymysgedd o gymorth ffurfiol ac anffurfiol, gan ddibynnu ar yr angen. Caiff y cynnig rhianta ei seilio ar y 3 thema ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• amenedigol a chymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar• dulliau gweithredu ymyrraeth gynnar er mwyn cynorthwyo rhieni agored i niwed• rhaglenni er mwyn cynorthwyo rhieni gyda rhianta cadarnhaol.
Hawl SLC	Hawl Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Mae Dechrau'n

	<p>Deg yn cynnig amrediad o gyfleoedd i fanteisio ar grwpiau a chyrsgiau (e.e. Iaith a Chwarae), yn ogystal â chymorth gan Therapyddion Iaith a Lleferydd a staff eraill sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad iaith a lleferydd. Yn flaenorol, galwyd yr hawl SLC yn hawl Datblygiad Iaith Gynnar (ELD) (tan 2015) ac fe'i galwyd yn hawl Iaith a Chwarae yn flaenorol hefyd. Newidiwyd hawl ELD i 'Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu' (SLC) ar ôl cyhoeddi canllawiau SLC Dechrau'n Deg yn 2015. Mae Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn ddisgrifiad ehangach ac mae'n cynnwys yr holl sgiliau sy'n ofynnol er mwyn i blant fod yn gyfathrebwyr cymwys a hyderus.</p>
SLT	<p>Therapi/Therapydd Iaith a Lleferydd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflogi staff SLT trwy Ddechrau'n Deg. Fodd bynnag, mae modd i deuluoedd gael eu cyfeirio gan staff Dechrau'n Deg i wasanaethau SLT cyffredinol hefyd.</p>
IaCh	<p>Iaith a Chwarae. Mae IaCh yn rhan o hawl SLC Dechrau'n Deg ac mae'n ymyriad SLC cyffredinol, anffurfiol. Yn aml, cynhelir sesiynau IaCh fel sesiynau 'galw heibio' ar draws awdurdodau lleol, ond mae modd eu cynnig fel cwrs hefyd (fel arfer rhwng pedair a chwe sesiwn). Mae IaCh yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwarae er mwyn helpu i feithrin sgiliau iaith a rhyngweithio rhwng rhieni a'u plant.</p>
Teuluoedd Ton 1, 2 neu 3	<p>Teuluoedd sy'n cael eu cyfweld yn ystod y tri cham blynyddol, neu donnau ymchwil. Ton 1 (yn 2015), 2 (2016) neu 3 (yn 2017).</p>

Asesiad SoGS	<p>Y Rhestr Sgiliau Tyfu. Mae SoGS yn offeryn asesu datblygiadol safonol a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol y mae angen iddynt ddarganfod lefelau datblygiadol plant. Mae ymarferwyr Dechrau'n Deg yn defnyddio'r offeryn i asesu lefel ddatblygiadol plant dwy a thair oed.</p> <p>Ers Ebrill 2017 nid yw asesiadau SoGS wedi cael eu defnyddio gan Dechrau'n Deg yn gyffredinol ond mae Awdurdodau Lleol yn dal i'w defnyddio fel rhan o gyfres o asesiadau wedi'u targedu at ddatblygiad plentyn, ar sail anghenion.</p>
Teuluoedd mewn angen Uchel/Canolig/Isel	<p>Teuluoedd sy'n cael eu diffinio gan dîm Dechrau'n Deg eu hawdurdod lleol fel rhai y mae angen cymorth arnynt ar lefel uchel/canolig/isel. Mae'r union ddiffiniadau o lefelau'r angen yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, ond maent yn ystyried ffactorau megis problemau iechyd, amddifadedd, oedran y rhiant, iaith ac argaeledd rhwydweithiau cymorth. Yn yr adroddiad hwn, caiff lefel angen y teulu ei chynnwys wrth ymyl dyfyniadau er mwyn rhoi cyd-destun i sefyllfa'r teulu (pan oedd y wybodaeth hon ar gael i'r tîm ymchwil).</p>

Crynodeb gweithredol

1. Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg. Cynhaliwyd yr astudiaeth hydredol hon mewn tri cham (a ddisgrifir fel Tonnau 1, 2 a 3) rhwng 2015 a 2017. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau Ton 3 y gwaith ymchwil, ar sail y gwaith maes a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2017.¹
2. Lanswyd rhaglen Dechrau'n Deg yn 2006/7 ac mae'n darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a theuluoedd mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, er mwyn gwneud gwahaniaeth pendant i'w bywydau. Mae'n canolbwyntio ar adnabod anghenion ac ar ymyriadau cynnar er mwyn gwella datblygiad ieithyddol, datblygiad gwybyddol a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, ynghyd â'u hiechyd corfforol. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig pedair prif hawl:
 - Gwasanaeth ymweliadau iechyd estynedig (EHV);
 - Gofal plant rhan-amser wedi'i ariannu'n llawn ac o ansawdd uchel i blant dwy i dair oed;
 - Y cyfle i fanteisio ar gymorth rhianta; a
 - Cymorth ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC).²

Nodau'r ymchwil

3. Nodau'r prosiect hwn yw:
 - Deall profiadau teuluoedd o raglen Dechrau'n Deg; a
 - Adnabod unrhyw effeithiau tybiedig y rhaglen ar deuluoedd Dechrau'n Deg.

¹ Mae modd troi at adroddiad Ton 1 (Llywodraeth Cymru, 2016a) ac adroddiad Ton 2 (Llywodraeth Cymru, 2017a) yma <https://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?skip=1&lang=cy>

² Newidiwyd yr hawl Datblygiad Iaith Gynnar (ELD) i Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC) ar ôl cyhoeddi canllawiau SLC Dechrau'n Deg yn 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015c).

4. Mae'r ymchwil yn rhoi sylw i'r cwestiynau ymchwil canlynol:

- Sut mae rhieni'n ymgysylltu â gwasanaethau Dechrau'n Deg a beth sy'n helpu ac sy'n llesteirio ar y gweithgarwch ymgysylltu?
- Sut mae rhieni yn penderfynu pa hawl(iau) y byddant yn ymgysylltu â nhw a phryd?
- Ym mha ffyrdd y bydd rhieni yn cael profiad o wahanol hawliau Dechrau'n Deg (h.y. ymweliadau iechyd estynedig, gofal plant, SLC, cymorth rhianta)?
- Beth yw disgwyliadau rhieni o raglen Dechrau'n Deg?
- I ba raddau y mae rhieni o'r farn bod Dechrau'n Deg wedi cyflawni yn erbyn unrhyw ddisgwyliadau?
- Sut mae Dechrau'n Deg yn ymwneud â gwasanaethau eraill (gan gynnwys ysgolion/rhaglenni cymorth i deuluoedd eraill/gwasanaethau iechyd? Er enghraifft, a cheir profiadau lle y mae Dechrau'n Deg yn 'cyfeirio' teuluoedd at wasanaethau eraill, a beth yw canlyniadau hyn?
- Pa mor dda y mae rhieni Dechrau'n Deg yn credu bod y rhaglen wedi adnabod ac ymateb i anghenion a dymuniadau teuluoedd o ran y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Beth yw canfyddiadau rhieni o effeithiau'r rhaglen, os o gwbl, ar eu teulu nhw yn y tymor canolig i'r tymor hir?

Trosolwg o'r dull

5. Cynhaliwyd cyfweiliadau â rhieni mewn chwe ardal Dechrau'n Deg ar dri achlysur yn ystod eu cyswllt gyda'r rhaglen:³

- Roedd Ton 1 yr astudiaeth (2015) yn cynnwys cyfanswm o 72 cyfweiliad gyda rhieni o chwe awdurdod lleol.

³ Roedd y chwe awdurdod lleol yn cynnwys un yr un o'r gogledd-ddwyrain, gogledd-orllewin, de-ddwyrain a de-orllewin Cymru yn ogystal ag un o bob awdurdod lleol canolbarth Cymru a chymoedd de Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am sut y dewiswyd yr awdurdodau lleol yn adroddiad Ton 1 (Llywodraeth Cymru, 2016a).

- Roedd Ton 2 yn cynnwys cyfanswm o 72 o gyfweiliadau gyda theuluoedd, gan gynnwys 53 o gyfweiliadau dilynol gyda theuluoedd o'r don gyntaf (sampl hydredol) ac 19 o gyfweiliadau gyda sampl 'ychwanegol' o deuluoedd er mwyn disodli'r rhai and oedd modd iddynt gymryd rhan mewn ail gyfweiliad;
 - Roedd Ton 3 yn cynnwys 72 o gyfweiliadau pellach, gan gynnwys ail gyfweiliadau â 58 o deuluoedd o'r don gyntaf a / neu'r ail don lle bo modd, yn ogystal â sampl 'ychwanegol' o 14 o deuluoedd er mwyn disodli unrhyw deuluoedd nad oeddent yn medru cymryd rhan mewn cyfweiliad arall.
 - Cymrodd 42 allan o'r 58 o deuluoedd yn y sampl hydredol ran mewn cyfweiliad yn ystod Ton 1, 2 a 3.⁴
6. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chydlynwyr a staff Dechrau'n Deg yn y chwe awdurdod lleol ym mhob ton o'r ymchwil er mwyn darparu data cyd-destunol
7. Yn Nhon 3 yn unig, roedd 20 o gyfweiliadau gyda 'sampl cymharu' o deuluoedd oedd yn byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg, er mwyn casglu tystiolaeth o'r hyn a allai / ni allai ddigwydd yn absenoldeb y Rhaglen. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda'r rhieni hyn mewn tri o'r chwe awdurdod lleol a ddewiswyd - un o'r gogledd orllewin, un o'r de ddwyrain ac un o ganolbarth Cymru. Roedd gan y teuluoedd a recriwtiwyd ar gyfer y sampl cymharu nodweddion tebyg i deuluoedd yn y brif sampl. Gofynnwyd i'r teuluoedd sampl cymharu ynglŷn â'u hymgysylltiad nhw a'u profiadau o wasanaethau cymorth teuluol dros oes eu plentyn / plant.

⁴ Cynhaliwyd cyfweiliad gyda 14 allan o'r 58 o deuluoedd hydredol yn nhonnau 2 a 3; a dau ohonynt yn nhonnau 1 a 3.

8. Mae'r dull gweithredu ansoddol a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn ein galluogi i gael dealltwriaeth o brofiadau teuluoedd o Ddechrau'n Deg ac i gasglu safbwyntiau ynghylch sut (os o gwbl) y mae'r Rhaglen wedi dylanwadu ar eu bywydau. Nid yw darparu data sy'n ystadegol ddibynadwy yn un o nodau'r ymchwil, ond mae'n darparu tystiolaeth fanwl er mwyn helpu i ddeall safbwyntiau rhieni ynghylch eu profiadau, er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth o ymgysylltiad teuluoedd â'r Rhaglen.

Ymgysylltu a disgwyliadau

9. Ceisiai'r ymchwil archwilio sut mae rhieni'n ymwneud â gwasanaethau Dechrau'n Deg a pha elfennau sy'n helpu ac yn rhwystro ymgysylltu. Roedd natur ymgysylltiad teuluoedd â Dechrau'n Deg yn amrywio yn ystod tair ton yr astudiaeth, roedd hyn yn tueddu i adlewyrchu canfyddiadau rhieni o anghenion eu teuluoedd ar wahanol gyfnodau o ddatblygiad eu plentyn.

Lefelau cyffredinol ymgysylltu â Dechrau'n Deg

10. Dylanwadwyd yn gryf ar ymgysylltiad teuluoedd gan oedran ac anghenion plant, cryfder y berthynas â staff Dechrau'n Deg yn ogystal â phrofiadau a hyder rhieni. Nododd y rhieni fod mwy o ymgysylltiad â'r hawl EHV yn ystod Tonnau 1 a 2, pan oedd eu plant yn iau, tra bod ganddynt fwy o ymgysylltiad â'r hawl gofal plant unwaith y byddai eu plentyn yn gymwys, rhwng 2 a 3 mlwydd oed. Mae'n ymddangos felly bod prif bwynt ymgysylltu â'r Rhaglen yn newid yn ystod y tair ton. Ar gyfer y rhan fwyaf o deuluoedd, roedd lefelau ymgysylltu yn unol â'r hyn oedd y teuluoedd yn disgwyl eu derbyn, ac ymddengys bod hyn yn gyson â'r amllder disgwyliedig a nodwyd yng nghanllawiau Dechrau'n Deg.⁵ Teimlir ychydig o deuluoedd nad oeddent wedi cael y cyfle i dderbyn cefnogaeth gan rhai o'r hawliau roedd eu hangen arnynt neu y byddant wedi hoffi eu defnyddio.

⁵ Mae canllawiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Dechrau'n Deg ar gael yma: <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?lang=cy> (Cyrchwyd 13^{eg} o Fehefin 2018)

11. Roedd y rhieni a oedd yn teimlo bod perthynas gref ganddynt â staff Dechrau'n Deg yn dueddol o adrodd lefelau uwch o ymgysylltiad gyda'r hawliau ym mhob ton. Yn benodol, roedd perthnasau gydag Ymwelwyr lechyd, a oedd rhieni yn aml yn disgrifio fel 'porthorion' i'r Rhaglen, yn ymddangos i fod yn gysylltiedig â lefelau ymgysylltu rhieni â'r hawliau. Felly, roedd perthnasau ac ymddiriedaeth gref rhwng staff a rhieni i'w gweld yn helpu teuluoedd i ymgymryd â'r Rhaglen.
12. Ym mhob ton o'r ymchwil, roedd bron pob un o'r teuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg wedi cynnal eu hymgysylltiad ag o leiaf un o'r hawliau. Ymddengys bod yr ymgysylltiad parhaus hwn â'r Rhaglen yn adlewyrchu profiadau cadarnhaol teuluoedd o ymgysylltu â'r hawliau, gan gynnwys eu profiadau o ddelio â staff, defnyddio cyfleusterau a lleoliadau. Roedd mwyafrif y teuluoedd ym mhob ton yn nodi lefelau uchel o foddhad â phob un o'r hawliau yr oeddent wedi'u defnyddio.

Ymgysylltiad â hawliau unigol

13. Un o nodau'r astudiaeth oedd deall sut a phryd yr oedd rhieni'n penderfynu pa hawliau yr oeddent yn ymgysylltu â hwy, a phryd. Fel y disgwyliar, roedd gan deuluoedd yn Nhon 3 lefelau is o ymgysylltiad â'u Hymwelydd lechyd oherwydd bod eu plant bellach yn hŷn na phan gafodd y rhieni eu cyfweld yn Nhonnau 1 a 2. Yn Nhon 3, roedd prif ymgysylltiad rhieni â'u Hymwelydd lechyd wedi bod yn gysylltiedig ag asesiad dwy neu dair blwydd oed eu plentyn (oni bai bod ganddynt fabi newydd neu fod angen iddynt ofyn am gyngor ar fater iechyd neu ddatblygiad).⁶

⁶ Mae *Rhaglen Graidd o Ymweliadau lechyd Cymru Gyfan Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2013b)* yn amlinellu amllder cysylltiadau arferol Ymwelwyr lechyd: bob wythnos hyd at 6 wythnos yn dilyn genedigaeth, a ddilynir gan gyswllt bob 8, 12 ac 16 wythnos ac o leiaf 2 gyswllt rhwng 6 a 12 mis. Yn dilyn hyn, disgwyliar y bydd ymweliadau'n cael eu cynnal ar ôl 18 mis, 2 a 3 blynedd (gan gynnwys asesiadau datblygiadol). Mae'r Rhaglen yn nodi y dylai cynlluniau gofal unigol, a ddatblygwyd wedi'u seilio ar asesiadau o anghenion y plentyn, ddylanwadu ar amllder y cyswllt. Mae hyn yn golygu y bydd angen i deuluoedd y nodwyd eu bod mewn angen uchel, gael cyswllt amlach gydag Ymwelydd lechyd na'r rhai y nodwyd eu bod mewn angen canolig neu isel. Ymhellach, gall rhieni drefnu cyswllt ychwanegol â'u Hymwelydd lechyd yn ôl y gofyn pan fydd materion penodol yn codi. Ers Ebrill 2017 newidiodd amseriad ymweliadau lechyd Dechrau'n Deg i gyd-fynd â rhaglen lechyd lach Cymru fel yr amlinellwyd yn nhudalen 5 o'r canllawiau: <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/170526-flying-start-health-prog-guide-cy.pdf>

14. Ymgysylltodd mwyafrif y teuluoedd â'r hawl gofal plant yn ystod yr ymchwil, a'r hawl hon oedd prif bwynt ymgysylltu â'r Rhaglen i lawer o rieni erbyn Ton 3. Roedd ymgysylltiad â'r hawl i ofal plant yn dibynnu ar oedran, ac os oedd y plentyn yn gymwys. Roedd y prif reswm a nodwyd gan rieni dros fanteisio ar yr hawl i ofal plant yn gyson ym mhob ton; sef y cyfle i blant gymdeithasu gyda'u cyfoedion mewn lleoliad cyn ysgol. Roedd rhieni hefyd yn manteisio ar yr hawl gofal plant gan eu bod yn teimlo bod gofal plant Dechrau'n Deg o ansawdd uchel. Yn yr un modd, roedd y rhwystrau i gael mynediad i'r hawl i ofal plant a adroddwyd gan nifer fach o rieni yn gyson ym mhob ton. Roedd y rhain yn cynnwys teuluoedd yn nodi bod yn well ganddynt ofalu am eu plentyn gartref neu dalu i gael mynediad at ddarparwr gofal plant preifat oherwydd nad oedd amseriadau neu leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg yn gyfleus iddynt. Dywedodd ychydig o rieni fod amseroedd sesiynau gofal plant Dechrau'n Deg yn gwrthdaro â'u hymrwymyiadau 'teithio i'r ysgol' neu ymrwymyiadau gwaith.
15. Parhaodd lefelau ymgysylltu â hawl SLC yn eithaf cyson yn ystod yr ymchwil gyda thua hanner teuluoedd Dechrau'n Deg yn cyrchu'r hawl hwn mewn o leiaf un o'r tair ton. Fodd bynnag, newidiodd natur y gefnogaeth SLC a dderbyniwyd gan rieni yn ystod yr ymchwil. Yn Nhonnau 1 a 2, roedd mwy o deuluoedd yn gwneud defnydd o grwpiau SLC tra yn Nhon 3, roedd nifer fwy o deuluoedd yn gwneud defnydd o SLT neu gymorth SLC un-i-un arall. Dywedodd llai o rieni eu bod wedi mynychu grwpiau SLC yn Nhon 3; ymddengys hyn oherwydd bod rhieni yn teimlo bod eu plant yn cael digon o ryngweithio cymdeithasol i gefnogi eu datblygiad trwy'r hawl gofal plant. Roedd rhwystrau i ymgysylltu â grwpiau SLC yn parhau'n gyson trwy gydol yr ymchwil. Ar gyfer rhai rhieni sy'n gweithio a'r rhai â phlant hŷn, roedd amseru'r grwpiau yn anghyfleus tra nad oedd rhieni eraill yn ymwybodol bod y grwpiau ar gael. Ni wnaeth rhai rhieni fynychu grwpiau oherwydd diffyg hyder.
16. Mi wnaeth mwyafrif y teuluoedd Dechrau'n Deg dderbyn cefnogaeth drwy'r hawl rhianta ar ryw adeg yn ystod yr ymchwil ac roedd lefelau'r ymgysylltu yn eithaf cyson yn Nhonnau 1, 2 a 3. Roedd rhesymau

rhieni dros ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarparwyd drwy'r hawl hwn hefyd yn eithaf cyson drwy gydol yr ymchwil; roedd rhieni'n tueddu i gymryd rhan mewn cyrsiau i ddatblygu eu gwybodaeth neu sgiliau, i wella'u cyfleoedd i gael swyddi yn y dyfodol neu i gymdeithasu â rhieni eraill. Roedd y rhwystrau i gyrchu'r hawl rhianta hefyd yn eithaf cyson ym mhob ton o'r astudiaeth; nid oedd rhai rhieni yn ymwybodol o'r cyrsiau oedd ar gael tra bod eraill, yn enwedig rhieni oedd yn gweithio, yn nodi nad oedd amseru cyrsiau yn gyfleus iddynt.

Ymgysylltiad yn yr ardaloedd cymharu

17. Er eu bod wedi eu cyfweld yn Nhon 3 yn unig, adroddodd teuluoedd mewn ardaloedd cymharu lefelau is o ymgysylltiad â gwasanaethau cymorth i deuluoedd na'r rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Roedd teuluoedd Dechrau'n Deg yn tueddu i nodi eu bod wedi defnyddio mwy o wasanaethau cymorth i deuluoedd na'r sampl cymharu yn ogystal â'u bod wedi cael ymgysylltiad mwy aml gyda'r gwasanaethau hyn. Dywedodd llai o deuluoedd cymharu eu bod wedi defnyddio gofal plant a derbyn cefnogaeth rhianta yn ogystal â chymorth SLC un-i-un. Adroddodd rhieni'r sampl cymharu hefyd eu bod wedi cael cysylltiad llai aml â'u Hymwelydd Iechyd o'i gymharu â rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Roedd y lefelau ymgysylltu is yn golygu bod gan deuluoedd sampl cymharu ystod fwy cyfyngedig o brofiadau o gael mynediad at wasanaethau cymorth i deuluoedd. Golygai hyn fod rhieni Dechrau'n Deg yn medru cynnig sylwadau ar fwy o brofiadau o wasanaethau cymorth i deuluoedd ac roeddent yn nodi'n amlach eu bod wedi elwa o'r mathau hyn o wasanaethau. Roedd cyfweiliadau â theuluoedd mewn ardaloedd cymharu hefyd yn awgrymu eu bod wedi cael llai o ymgysylltiad parhaus â gwasanaethau cymorth i deuluoedd dros oes eu plentyn.

18. Ymddengys bod llai o'r teuluoedd yn y sampl cymharu yn manteisio ar ofal plant, gyda dim ond hanner y rhieni yn nodi eu bod wedi defnyddio gofal plant cyn i'w plentyn droi'n dair oed. Roedd y rhieni hynny yn y sampl cymharu nad oeddent wedi defnyddio gwasanaethau gofal plant yn aml yn nodi eu bod yn mynychu cylchoedd chwarae gyda'u plant (e.e. grwpiau oedd yn cael eu rhedeg gan elusennau neu eglwysi) er mwyn iddynt gymdeithasu cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Nododd rhai rhieni yn y sampl cymharu y byddent wedi hoffi i'w plentyn gael mynychu gofal plant ond na allent ei fforddio. Teimlai'r rhieni hyn y gallai gofal plant helpu eu plentyn i gymdeithasu â phlant eu hoedran eu hunain ac i fod yn fwy parod ar gyfer trosglwyddo i addysg feithrin.
19. Nid yw'n hawdd cymharu ymgysylltiad teuluoedd Dechrau'n Deg a'r sampl cymharu gyda gwasanaethau SLC. Un rheswm dros hyn yw nad yw rhai o'r gweithgareddau SLC mwy strwythuredig, a gynigir trwy Dechrau'n Deg, fel arfer ar gael y tu allan i ardaloedd sy'n gymwys ar gyfer y Rhaglen. Adroddodd rhieni mewn ardaloedd cymharu yn fwy aml eu bod yn mynychu grwpiau SLC mewn lleoliadau megis llyfrgelloedd ac eglwysi, o'u cymharu â rhieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, roedd teuluoedd Dechrau'n Deg yn adrodd yn amlach eu bod wedi derbyn cefnogaeth SLC un-i-un yn Nhon 3, o'i gymharu â theuluoedd y sampl cymharu. At hynny, mae canfyddiadau rhieni cymharu yn awgrymu bod rhai teuluoedd yn mynychu grwpiau SLC oherwydd eu bod yn eu gweld fel cyfle i ddatblygu sgiliau cymdeithasol eu plentyn ac na allent fforddio gofal plant. Gallai hyn awgrymu bod lefelau uchel o ymgysylltu â gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant 2-3 oed yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau rhieni ynghylch mynychu grwpiau SLC.
20. Dywedodd llai o rieni yn y sampl cymharu eu bod wedi cael cefnogaeth rhianta o'i gymharu â'r rhai mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Roedd tua thraean o rieni'r sampl cymharu wedi cael mynediad at gwrs rhianta, gan gynnwys tylino babanod a chyrsgiau sy'n canolbwyntio ar ymddygiad, datblygiad plant a choginio. Nid oedd rhai rhieni yn y grŵp cymharu yn ymwybodol o argaeledd cyrsiau rhianta

ac nid oeddent wedi ystyried mynychu cwrs rhianta. Roedd rhieni'r sampl cymharu yn tueddu i adlewyrchu y byddent yn hoffi gweld mwy o gyrsiau rhianta ar gael (e.e. cyrsiau coginio, bwydo o'r fron a datblygiad plant).

Profiadau

21. Roedd deall sut y mae teuluoedd yn profi'r hawliau Dechrau'n Deg yn un o nodau'r astudiaeth yn ogystal ag archwilio i ba raddau y mae'r Rhaglen wedi cwrdd â disgwyliadau rhieni. Roedd gan y mwyafrif o deuluoedd brofiadau positif o ddefnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg a chanddynt farn gadarnhaol ar staff, lleoliadau, cyfleusterau, gweithgareddau ac argaeledd gwasanaethau yn Gymraeg. Roedd teuluoedd yn ymwybodol o 'frand' Dechrau'n Deg ac roedd y rhan fwyaf yn deall pa wasanaethau oedd wedi'u cynnig drwy'r hawliau yn ogystal â deall bod cysylltiadau rhwng yr hawliau. Er bod teuluoedd yn tueddu i ddweud nad oedd ganddynt ddisgwyliadau penodol o'r Rhaglen cyn eu hymgysylltiad, roedd y rheini a oedd ganddynt ddisgwyliadau yn aml yn teimlo eu bod wedi cael eu diwallu neu fod y Rhaglen wedi rhagori arnynt.
22. Roedd y rhieni yn y grŵp cymharu yn llai tueddol o adnabod cydgysylltiadau rhwng gwahanol wasanaethau cymorth i deuluoedd o'u cymharu â'r teuluoedd Dechrau'n Deg. Roedd rhieni'r sampl cymharu yn aml wedi cyrchu gwasanaethau yn annibynnol ac roeddent yn llai tebygol o nodi eu bod wedi cael eu cyfeirio at grwpiau SLC gan eu Hymwelydd Iechyd.
23. Isod, adroddir profiadau rhieni o'r holl hawliau mewn ffordd annibynnol. Fodd bynnag, mae natur holistig Dechrau'n Deg yn golygu ei bod yn bwysig cydnabod y cydgysylltiadau rhwng yr hawliau a chyfyngiadau dadansoddi profiadau o un hawl ar wahân i'r lleill. Er enghraifft, gallai gweithgareddau sy'n rhan o'r hawl SLC gael eu darparu mewn lleoliadau Gofal Plant neu trwy'r EHV heb i rieni fod yn ymwybodol o hyn. Dylid cofio hyn wrth adolygu'r canfyddiadau.

24. Ym mhob ton o'r astudiaeth, roedd y rhan fwyaf o rieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn fodlon iawn â'r cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt trwy'r hawl EHV a medrent ddisgrifio sut roedd eu Hymwelydd lechyd wedi bod yn hawdd mynd ati/ato, yn ymatebol ac yn hyblyg wrth eu cefnogi. Er bod teuluoedd wedi nodi bod arnynt angen llai o gyswllt â'u Hymwelydd lechyd wrth i'r ymchwil fynd yn ei flaen (wrth i'w plentyn dyfu'n hŷn), roedd y rhan fwyaf o rieni'n fodlon bod amllder y cyswllt yn ddigonol ac roeddent yn teimlo sicrwydd gan wybod y gallent ofyn am gyngor eu Hymwelydd lechyd os oedd ei hangen arnynt. Ym mhob ton o'r astudiaeth, roedd y rhieni hynny a oedd yn teimlo bod ganddynt berthynas fwy cadarnhaol â'u Hymwelydd lechyd yn tueddu bod yn fwy tebygol o ddilyn eu cyngor yn ogystal ag ymgysylltu â gwasanaethau Dechrau'n Deg eraill. Roedd yn ymddangos bod rhieni a gefnogwyd yn barhaus gan un Ymwelydd lechyd yn ystod yr astudiaeth yn fwy bodlon â'r hawl EHV na'r rhieni a oedd wedi cael mynediad i sawl Ymwelydd lechyd gwahanol. O ran cyfeirio at wasanaethau eraill, roedd rhieni ym mhob ton yn aml yn rhoi enghreifftiau o sut yr oedd Ymwelwyr lechyd wedi eu cyfeirio nhw neu wedi gweithredu fel dolen gyswllt rhyngddyn nhw a gweithwyr ieuchyd proffesiynol eraill.
25. Roedd gan deuluoedd lefelau uchel o foddhad gyda'r hawl gofal plant ym mhob ton o'r ymchwil, gyda'r rhan fwyaf o'r farn bod y ddarpariaeth o safon uchel. Roedd gan rieni farn gadarnhaol ar staff gofal plant, lleoliadau a chyfleusterau yn ogystal â'r cyfathrebu a'r cyngor a dderbyniwyd ganddynt. Roedd y rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod eu plentyn wedi cael mynediad at ystod dda o weithgareddau a bod y ddarpariaeth wedi galluogi eu plant i gymdeithasu ag eraill o oedran tebyg mewn lleoliad cyn-ysgol. Disgrifiodd rhai rhieni sut roedd gweithwyr gofal plant wedi gweithio'n effeithiol gyda staff eraill Dechrau'n Deg, megis Therapyddion Lleferydd ac Iaith (SLT), i gefnogi eu plentyn.
26. Roedd gan rieni lefelau uchel o foddhad gyda'r hawl rhianta yn ystod pob ton o'r astudiaeth. Mi wnaeth rhieni yn Nhon 3 barhau i fynegi barn gadarnhaol am yr ystod o gyrsiau rhianta y buont yn eu mynychu

a chefnogaeth un-i-un yr oeddent wedi ei dderbyn. Nododd y rhieni fod y wybodaeth a'r cyngor a dderbyniwyd ganddynt yn ddefnyddiol ac roeddent yn teimlo bod y staff wedi darparu'r gefnogaeth hon yn dda. Awgrymodd rhai rhieni y gellid gwella amseriad y cyrsiau rhianta (e.e. gallai cyrsiau gyda'r nos fod yn fwy cyfleus i rieni sy'n gweithio).

27. Nododd mwyafrif y rhieni a oedd wedi defnyddio'r hawl SLC fod ganddynt lefelau uchel o fodlonrwydd gyda grwpiau, cyrsiau a chefnogaeth un-i-un a ddarparwyd drwy'r hawl hwn. Yn ystod pob ton o'r astudiaeth, dywedodd teuluoedd eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol o fynychu sesiynau grŵp ac, wrth i'r ymchwil fynd yn ei flaen, disgrifiodd mwy o rieni eu profiadau o dderbyn cefnogaeth SLC un-i-un. Mynegodd rhieni a fynychodd gefnogaeth SCL farn gadarnhaol am y cyfleoedd a ddarparwyd gan y cymorth hwn i ryngweithio â'u plant (trwy ganu, chwarae a darllen) a'r cyfleoedd i blant gymdeithasu. Roedd y rhieni a oedd wedi derbyn cefnogaeth SLT yn fodlon â'r ffordd yr oedd y therapydd wedi cyfathrebu â'r teulu ac yn darparu adborth ar ddatblygiad eu plentyn.
28. Archwiliodd yr astudiaeth i ba raddau yr oedd rhieni Dechrau'n Deg yn credu bod y Rhaglen wedi adnabod ac ymateb i'w hanghenion a'u dymuniadau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ystod Ton 1, 2 a 3, roedd rhai rhieni wedi defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg trwy Dechrau'n Deg neu wedi cael cefnogaeth gan Ymwelydd lechyd neu SLT oedd yn siarad Cymraeg. Ychydig iawn o rieni oedd wedi derbyn cymorth rhianta trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog gan nad oedd y mwyafrif o gyrsiau rhianta wedi digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer cymharol fach o rieni yn mynychu cyrsiau rhianta, beth bynnag fo'r iaith. Ym mhob ton, dywedodd rhieni fod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel ond nid oedd gan rieni farn unffurf ar argaeledd gwasanaethau Cymraeg. Roedd ychydig o rieni yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at Ymwelydd lechyd Cymraeg neu ofal plant cyfrwng Cymraeg ac roedd ychydig wedi methu â chael mynediad at y gwasanaethau hyn er gwaetha'r ffaith mai'r Gymraeg oedd eu dewis iaith. Roedd y rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau Cymraeg a adroddwyd

gan rieni wedi parhau'n eithaf cyson ym mhob ton o'r astudiaeth; roedd rhai yn teimlo bod diffyg gwybodaeth ar gael, roedd rhai o'r farn bod diffyg staff sy'n siarad Cymraeg ac roedd eraill yn nodi nad oedd darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael.

29. Mynegodd rhieni yn y sampl cymharu barn gadarnhaol hefyd am y gwasanaethau cymorth i deuluoedd yr oeddent wedi'u defnyddio. Fodd bynnag, er bod y canfyddiadau'n awgrymu bod gan deuluoedd yn y sampl cymharu lefelau tebyg o foddhad gyda gwasanaethau cymorth i deuluoedd, ymddengys eu bod wedi cael llai o gyfleoedd i gael mynediad at y gwasanaethau hyn na'r rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Roedd mwyafrif y rhieni yn y sampl gymharu a oedd wedi cael mynediad at ofal plant a chyrsgiau neu gefnogaeth rhianta wedi cael profiadau cadarnhaol ac roedd ganddynt lefelau tebyg o foddhad i'r prif sampl gyda'r gwasanaethau hyn. Roedd gan fwyafrif y teuluoedd cymharu hefyd brofiadau cadarnhaol o ymgysylltu â'r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd a Chymorth SLC, er bod eu boddhad â'r gwasanaethau hyn ychydig yn is na'r rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Yn ogystal, roedd rhieni'r sampl cymharu yn llai tueddol o adrodd eu bod wedi cael eu cyfeirio o un gwasanaeth cymorth i deuluoedd i'r llall a bod y gwasanaethau wedi gweithio mewn modd integredig.

Canlyniadau ac effeithiau tybiedig

30. Roedd ystyried canfyddiadau rheini o effeithiau'r Rhaglen ar eu teulu yn y tymor canolig a'r hirdymor yn un o gwestiynau ymchwil allweddol yr astudiaeth. Mae'r canfyddiadau ym mhob ton o'r astudiaeth yn dangos bod rhieni y cyfwelwyd â nhw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o'r farn bod eu teulu wedi elwa o'r Rhaglen mewn rhyw ffordd. Ym mhob ton, teimlai'r rhieni fod y Rhaglen yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddatblygiad eu plentyn yn ogystal â'u sgiliau a'u gwybodaeth eu hunain fel rhiant. Mae natur hydredol yr astudiaeth hon wedi ein galluogi i brofi a oedd y canlyniadau amrywiol a briodolwyd i'r Rhaglen gan rieni yn ystod cyfweiliadau Ton 1, wedi cael eu harsylwi gan rieni yn ystod Ton 2, ac i ystyried a oedd rhieni'n teimlo bod y manteision hyn yn parhau i gael eu cynnal yn Nhon 3.

Adroddodd y teuluoedd hydredol y cyfwelwyd â nhw yn y tair ton fod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt, gan awgrymu bod rhai o'r effeithiau tybiedig hyn wedi'u cynnal dros amser.

31. Roedd mwyafrif y rhieni ym mhob ton o'r farn bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn o ran: sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu, parodrwydd ar gyfer yr ysgol a sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad. Mewn cyfweliadau Ton 3, adroddodd rhieni'n amlach fod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau ymarferol eu plentyn (e.e. dysgu i ddefnyddio'r toiled, tacluso), gan briodoli hyn yn aml i'r hawl gofal plant.
32. Roedd mwyafrif y rhieni yn priodoli canlyniadau i raglen Dechrau'n Deg yn ei chyfanrwydd er tynnodd rhai sylw at sut roeddent yn teimlo bod eu plentyn wedi elwa'n fwy o un o'r hawliau na'r rhai eraill. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith rhieni y mae eu plant wedi gwneud y cyfnod pontio i'r Cyfnod Sylfaen a theimlai bod eu plentyn wedi ei baratoi'n well ar gyfer dechrau'r ysgol oherwydd eu bod wedi cael mynediad at yr hawl i gael gofal plant. Tynnodd rhai rhieni sylw at y cyfraniad roeddent yn teimlo bod gwasanaethau penodol (e.e. SLT) wedi gwneud i ddatblygiad eu plentyn, er enghraifft, dod yn fwy siaradus neu'n siarad yn gliriach.
33. Roedd y rhan fwyaf o rieni y cyfwelwyd â nhw ym mhob ton o'r astudiaeth o'r farn bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i'w sgiliau a'u dealltwriaeth o rianta. Roedd hyn yn cynnwys eu hymagwedd at rianta a chefnogi dysgu eu plentyn, rheoli ymddygiad, yn ogystal â hyder, lles a dulliau cyfathrebu'r rhieni. Amlygodd rhieni'r mathau hyn o effeithiau yn amlach wrth i'r ymchwil fynd rhagddo a nododd rhai rhieni eu bod wedi parhau i ddefnyddio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a enillwyd ganddynt o'r Rhaglen mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd y rhan fwyaf o rieni o'r farn bod y gwelliant hwn mewn sgiliau a dealltwriaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar les eu teulu.
34. Yn ogystal â'r effeithiau uchod, dywedodd rhai rhieni fod cyngor gan staff Dechrau'n Deg wedi effeithio'n gadarnhaol ar ba mor hir y gwnaethant barhau i fwydo'u plentyn o'r fron, eu hymagwedd at

ddiddefnu (e.e. gwell dealltwriaeth o ddeiet a maeth) a'u hymwybyddiaeth o faterion diogelwch yn y cartref.

35. Roedd rhieni yn y sampl cymharu yn tueddu i gynnig llai o enghreifftiau o sut roedd gwasanaethau cefnogi wedi gwneud gwahaniaeth i'w teulu. Cyfeiriodd teuluoedd sampl cymharu at fanteision defnyddio gofal plant amlaf (fel arfer wedi ei dalu amdano'n breifat) o ran datblygiad sgiliau cymdeithasol, rhyngweithio, ymddygiad a pharodrwydd eu plentyn ar gyfer yr ysgol. Cyfeiriodd ychydig o rieni at eu canfyddiadau o effeithiau cefnogaeth gan yr Ymwelydd Iechyd yn ogystal â chylchoedd chwarae a chyrsgiau rhianta a fynychwyd ganddynt. Roedd rhieni'r sampl cymharu yn llai tebygol na'r rhai mewn ardaloedd Dechrau'n Deg i gyfeirio at y cysylltiadau rhwng gwasanaethau wrth drafod eu canfyddiadau o fanteision y gefnogaeth.
36. Mae'n glir bod rhieni y cyfwelwyd â nhw yn ystod yr astudiaeth hon yn credu fod Dechrau'n Deg wedi bod o fudd i'w teulu. Mae meintiau bach y samplau a natur ansoddol yr ymchwil hwn yn golygu na ddylid dehongli cymariaethau rhwng rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a'r sampl cymharu i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach o deuluoedd. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod teuluoedd a gafodd eu cyfweld mewn ardaloedd Dechrau'n Deg wedi cael lefelau uwch o ymgysylltiad â gwasanaethau cefnogaeth i deuluoedd, wedi cael eu cyfeirio yn amlach rhwng gwasanaethau ac, mewn rhai achosion, wedi bod yn fwy bodlon gyda'r gwasanaethau yr oeddent wedi'u defnyddio na theuluoedd a gafodd eu cyfweld mewn ardaloedd cymharu. At hynny, cynigiodd teuluoedd Dechrau'n Deg fwy o enghreifftiau o sut roedd gwasanaethau wedi gwneud gwahaniaeth iddynt ac roeddynt yn fwy tueddol i briodoli'r manteision yr oeddynt wedi'u hadnabod i becyn cymorth integredig yn hytrach na gwasanaethau unigol. Mae natur hydredol yr astudiaeth hon wedi ein galluogi i arsylwi bod y rhan fwyaf o rieni y cyfwelwyd â nhw yn teimlo bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth sydd wedi'i gynnal wrth i'r plant baratoi i drosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen.